# Uned 17

# Sgraffinio

## Taflen Wybodaeth

**Cyflwyniad**

Mae Sgraffinio'n golygu rhoi brechlyn i anifail trwy:

i) grafu wyneb y croen i gael briw mynediad
ii) roi'r brechlyn hylifol ar y lleoliad crafedig.

**Lle mae'r Lleoliad Sgraffinio cywir?**

Gellir awgrymu 3 lleoliad:

- Y croen rhwng top y goes flaen a wal y frest
- Y croen yr ochr mewn i'r goes
- Y croen o dan y gynffon.

**Beth yw'r dull cywir?**

- ⌦ Ffrwynwch yr anifail e.e. oen, a dinoethi'r croen
- ⌦ Rhowch frechlyn gan ddefnyddio'r taenwr
- ⌦ Gosodwch y ffyrch ar y croen
- ⌦ Gwnewch grafiad 4 i 5 cm
- ⌦ Bydd y dos o frechlyn yn cael ei roi'n gyfartal ar hyd y crafiad
- ⌦ Rhaid dal y taenwr ar ongl (tua 45 gradd) i'r croen
- ⌦ Gwasgwch yn gadarn i sicrhau bod digon o grafiad croen i "gymryd" y brechlyn yn effeithiol
- ⌦ Dylai'r crafiad fod ond yn ddigon i dorri haen uchaf y croen ond ddim yn ddigon dwfn i dynnu gwaed.

**Enghraifft o Frechlyn Sgraffinio – Brechlyn ORFF**

**Beth yw ORFF?**

- Clefyd croen poenus mewn defaid
- Achosi gan firws sy'n aros ar y croen – dim yn cael ei ladd gan antibiotigau (ni all firws fyw mewn amodau oer iawn)
- Niweidiau crachlyd o amgylch ceg a ffroenau'r ŵyn - trosglwyddo'r firws i dethau'r famog
- Gall orff ar dethau arwain at fastitis
- I'w weld mewn ŵyn ifanc a'u mamogiaid ac mewn ŵyn hŷn yn hwyr yn yr Haf
- Dim ond yn treiddio i mewn i'r corff trwy groen sydd wedi torri
- Gallu byw mewn pren
- Haint bacteriol eilaidd yn debygol o ddigwydd – gellir ei ladd gan Teramysin.

**Pwyntiau pwysig ynglŷn â brechu yn erbyn ORFF**

- Peidiwch â brechu os nad ydych chi erioed wedi cael orff ar y fferm – mae'n cyflwyno firws byw

- Mae orff yn filheintiol – arwynebeddau coch a all fod yn boenus iawn
- Dylid defnyddio menig amddiffynnol wrth drin anifeiliaid heintiedig.